14–16 oed

# Y model atomig: Modelau Frayer

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/4tzFoze

# Modelau Frayer

Mae modelau Frayer yn ffordd syml ond effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o ddarn newydd o eirfa. Byddwch yn gweld beth mae eich dysgwyr yn ei wybod yn barod ac yn adnabod unrhyw gamsyniadau sydd ganddynt.

Mae pedwar cam y gall y dysgwyr weithio drwyddynt, ond gallwch addasu'r model hwn i weddu orau i'ch dysgwyr. Gallwch arwain y dysgwyr drwy bob pedrant, ond mae pedrant 2 yn enwedig yn gweithio orau fel trafodaeth dan arweiniad yr athro.

| | |
|---|---|
| **1. Archwilio**<br>Cysylltwch hyn â chyfalaf gwyddoniaeth a defnyddiwch brofiad y dysgwyr. | **2. Dadansoddi**<br>Edrychwch ar rannau cyfansawdd y gair i helpu i ddatrys ei ystyr. |
| **4. Cyfnerthu**<br>Bydd y dysgwyr yn defnyddio'u gwybodaeth. | **3. Egluro**<br>Cyflwynwch y diffiniad. |

**Term allweddol**

Mae rhagor o ganllawiau, gan gynnwys awgrymiadau, addasiadau a gwaith darllen pellach, ar gael yn y nodiadau i athrawon: rsc.li/4tzFoze

# Proton

**1. Beth mae'r gair proton yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?**

Dyma rai syniadau:

- Prototeip yw fersiwn gyntaf neu ddrafft cynnyrch. Mae'n cynnwys 'proto'.
- Ydych chi wedi gweld y gair proton o'r blaen? Mae protonau yn rhannau o atom ac maent y tu mewn i'r niwclews.

**2. Dadansoddi proton**

prot

**cyntaf**

on

**o'r gair ïon, sy'n golygu wedi'i wefru**

**Awgrymwch ystyr proton drwy ddod â'r rhannau geiriau hyn at ei gilydd**

**3. Gorffennwch y frawddeg am y gair proton**

Mae proton yn ronyn is-atomig â gwefr…

**4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad y proton yn yr atom**

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews neu blisgyn) |
|---|---|---|
| | | |

**Copïwch y diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol**

## 1. Beth mae’r gair niwtron yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o’r gair) o'r blaen?

Dyma rai syniadau:

- Mae niwtral yn cynnwys ‘niwtr’, yn union fel niwtron. Dydy rhywun sydd â golwg niwtral ar ei wyneb ddim yn edrych yn hapus nac yn drist, a dydy gwlad niwtral mewn rhyfel ddim yn ochri â neb.
- Ydych chi wedi clywed y gair niwtron o’r blaen? Mae niwtron, proton ac electron i gyd yn rhannau o atom ac i gyd yn gorffen gydag ‘on’.

## 2. Dadansoddi niwtron

niwtr

**niwtral**

on

**o’r gair ïon, sy’n golygu wedi’i wefru**

## Awgrymwch ystyr niwtron drwy ddod â’r rhannau geiriau hyn at ei gilydd

# Niwtron

## 4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad y niwtron yn yr atom

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews neu blisgyn) |
|---|---|---|
| | | |

## 3. Gorffennwch y frawddeg am y gair niwtron

Mae niwtron yn ronyn is-atomig heb…

## Copïwch y diffiniad o’r rhestr o dermau allweddol

# Electron

## 1. Beth mae'r gair electron yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?

Dyma rai syniadau:

- Mae electronig yn cynnwys 'electr', yn union fel electron ac electroneg. Maent i gyd yn ymwneud â thrydan (**electr**icity).
- Ydych chi wedi gweld y gair electron o'r blaen? Mae proton, electron a niwtron i gyd yn rhannau o atom ac i gyd yn gorffen gydag 'on'.

## 2. Dadansoddi electron

electr

**wedi'i wefru â thrydan**

on

**o'r gair ïon, sy'n golygu wedi'i wefru**

## Awgrymwch ystyr electron drwy ddod â'r rhannau geiriau hyn at ei gilydd

## 4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad yr electron yn yr atom

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews neu blisgyn) |
|---|---|---|
| | | |

## 3. Gorffennwch y frawddeg am y gair electron

Mae electron yn ronyn is-atomig â gwefr…

## Copïwch y diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol

**1. Beth mae'r gair niwclews yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?**

Dyma rai syniadau:

- Mae niwclews yn cynnwys 'niwcle', yn union fel ynni niwclear a theulu niwclear.
- Ydych chi wedi gweld y gair niwclews o'r blaen? Mewn bioleg, mae'n golygu rhan ganolog cell. Mae hefyd yn gallu golygu canolbwynt rhywbeth yn fwy cyffredinol, fel aelodau craidd grŵp mawr o bobl.

**2. Beth ydym yn ei wybod am niwclews?**


Mae niwclews yng nghanol atom, mae ganddo wefr bositif.

Yn Lladin, mae'n golygu cnewyllyn neu gneuen fach.

# Niwclews

**4. Dyma atom nitrogen**

- **Ysgrifennwch faint o brotonau, niwtronau ac electronau sydd ganddo**
- **Labelwch y niwclews**




**3. Gorffennwch y frawddeg am y gair niwclews**

Mae gan niwclews wefr bositif ac mae yng nghanol…

**Copïwch y diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol**

**1. Beth mae'r gair plisgyn yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn o'r blaen?**

Dyma rai syniadau:

- Mae gan wyau blisgyn, fel sydd gan rai mathau o gnau. Ydych chi erioed wedi cael cneuen lle roedd rhaid torri'r plisgyn er mwyn ei bwyta?
- Yn gyffredinol, mae'n gallu golygu haen allanol neu orchudd rhywbeth.


**2. Beth ydym yn ei wybod am blisg?**

Mae plisg yn rhan o atom. Maent o amgylch y niwclews ac yn cynnwys electronau.

Mae plisgyn yn gallu golygu amgáu â chas.

# Plisgyn electronau/lefel egni

**4. Dyma atom nitrogen. Labelwch y plisg electronau**



**3. Gorffennwch y frawddeg am yr ymadrodd plisg electronau/lefelau egni**

Mae plisg electronau/lefelau egni yn ardal o amgylch …

**Copïwch y diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol**

**1. Beth mae'r gair isotop yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair hwn) o'r blaen?**

Dyma rai syniadau:

- Mae isotop yn cynnwys 'iso', fel diod isotonig. Mae diodydd isotonig yn cynnwys halen a siwgr, yn debyg i waed pobl.
- Mae isobarrau hefyd yn cynnwys 'iso'. Mae isobarrau yn llinellau ar fap tywydd sy'n cysylltu lleoedd â'r un gwasgedd aer.

**2. Dadansoddi isotop**

iso

**yn hafal i, yr un**

top

**lle**

**Awgrymwch ystyr isotop drwy ddod â'r rhannau geiriau hyn at ei gilydd**

# Isotop

**4. Pam mae modd dosbarthu'r atomau carbon canlynol yn isotopau? I ateb y cwestiwn hwn, llenwch y bylchau geiriau i gwblhau'r frawddeg isod.**

$$^{12}_{6}C \quad ^{13}_{6}C \quad ^{14}_{6}C$$

Mae modd dosbarthu'r atomau carbon hyn yn isotopau oherwydd bod ganddynt yr un nifer o __________ ond niferoedd gwahanol o ____________.

**3. Gorffennwch y frawddeg am y gair isotop**

Mae isotopau yn atomau sydd â'r un nifer o…

**Copïwch y diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol**

# Proton

## 1. Beth mae'r gair proton yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?

## 2. Dadansoddi proton

prot

Sy'n golygu 'yn gyntaf', yn honedig oherwydd bod niwclews hydrogen yn cynnwys un proton.

on

o'r gair ïon, sy'n golygu wedi'i wefru

## 3. Diffinio proton

Gronyn is-atomig â gwefr bositif a màs cymharol o 1, ac sydd i'w ganfod mewn niwclews atom.

## 4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad y proton yn yr atom

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews/plisgyn) |
|---|---|---|
| 1 | +1 | Niwclews |

## 1. Beth mae'r gair niwtron yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?

## 2. Dadansoddi niwtron

niwtr

niwtral

on

o'r gair ïon, sy'n golygu wedi'i wefru
gronyn niwtral trydanol yr atom

# Niwtron

## 4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad y niwtron yn yr atom

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews/plisgyn) |
|---|---|---|
| 1 | 0 | Niwclews |

## 3. Diffinio niwtron

Gronyn is-atomig heb wefr sydd â màs cymharol o 1, ac sydd i'w ganfod mewn niwclews atom.

# Electron

## 1. Beth mae'r gair electron yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?

## 2. Dadansoddi electron

electr

wedi'i wefru â thrydan

on

o'r gair ïon, sy'n golygu wedi'i wefru

## 3. Diffinio electron

Gronyn is-atomig â gwefr negatif sydd ag ychydig iawn o fàs, ac sydd i'w ganfod ym mhlisg electronau/lefelau egni atomau.

## 4. Nodwch fàs cymharol, gwefr a lleoliad yr electron yn yr atom

| Màs cymharol | Gwefr | Lleoliad (niwclews/plisgyn) |
|---|---|---|
| 1/1840 neu ddibwys | -1 | plisgyn |

**1. Beth mae'r gair niwclews yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair) o'r blaen?**

**2. Beth ydym yn ei wybod am niwclews?**

niwclews

Yn Lladin, mae'n golygu cnewyllyn neu gneuen fach.

# Niwclews


**3. Diffiniwch niwclews mewn cyd-destun cemegol**

Canol yr atom, sydd â gwefr bositif ac sy'n cynnwys protonau a niwtronau.

**4. Dyma atom nitrogen**

- Ysgrifennwch faint o brotonau, niwtronau ac electronau sydd ganddo
- Labelwch y niwclews

7 proton
7 niwtron
7 electron



**1. Beth mae'r gair plisgyn yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn o'r blaen?**


**2. Beth ydym yn ei wybod am blisg?**

Mae plisg yn rhan o atom. Maent o amgylch y niwclews ac yn cynnwys electronau.

Mae plisgyn yn gallu golygu amgáu â chas.

# Plisgyn electronau

**4. Dyma atom nitrogen.**
**Labelwch y plisg electronau**




**Diffiniwch blisgyn mewn cyd-destun cemegol**

Yr ardal o amgylch niwclews atom lle mae'r electronau i'w canfod; mae gan bob lefel uchafswm o electronau y mae'n gallu eu dal.

**1. Beth mae'r gair isotop yn ei olygu i chi? Ble ydych chi wedi dod ar draws y gair hwn (neu rannau o'r gair hwn) o'r blaen?**

**2. Dadansoddi isotop**

iso

yn hafal i, yr un

top

lle

Er bod ganddynt fasau atomig gwahanol, mae'r gwahanol ffurfiau o elfen yn yr un lle yn y tabl cyfnodol.

# Isotop

**3. Diffinio isotop**

Atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau.

**4. Pam mae modd dosbarthu'r atomau carbon canlynol yn isotopau? I ateb y cwestiwn hwn, llenwch y bylchau geiriau i gwblhau'r frawddeg isod.**

$$^{12}_{6}C \quad ^{13}_{6}C \quad ^{14}_{6}C$$

Mae modd dosbarthu'r atomau carbon hyn yn isotopau oherwydd bod ganddynt yr un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau.

Cynllun enghreifftiol

## 1. Archwilio

Cysylltwch hyn â chyfalaf gwyddoniaeth a defnyddiwch brofiad y dysgwyr.

## 2. Dadansoddi/‘beth ydym ni’n ei wybod am X’?

Edrychwch ar rannau cyfansawdd y gair i helpu i ddatrys ei ystyr.

Neu gofynnwch i’r dysgwyr awgrymu beth maent eisoes yn ei wybod am y term allweddol (gyda chymorth ambell bwynt bwled).

## 3. Egluro

Cyflwynwch y diffiniad.

## 4. Cyfnerthu

Bydd y dysgwyr yn defnyddio’u gwybodaeth.

**<Dewiswch eich term allweddol>**